Mae'r Offeryn Statudol Cymreig hwn wedi ei wneud i gywiro gwallau yn O.S.C. 2026/102 a O.S.C. 2026/95.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 113

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cymunedau) a Sir Abertawe (Cymunedau) (Diwygiadau Amrywiol) 2026

Gwnaed	*16 Gorffennaf 2026*
Yn dod i rym	*31 Gorffennaf 2026*

This Welsh Statutory Instrument has been made to correct errors in W.S.I. 2026/102 and W.S.I. 2026/95.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 113

The County Borough of Caerphilly (Communities) and the County of Swansea (Communities) (Miscellaneous Amendments) Order 2026

Made	*16 July 2026*
Coming into force	*31 July 2026*

£8.90

Mae'r Offeryn Statudol Cymreig hwn wedi ei wneud i gywiro gwallau yn O.S.C. 2026/102 a O.S.C. 2026/95.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 113

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cymunedau) a Sir Abertawe (Cymunedau) (Diwygiadau Amrywiol) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cymunedau) 2026 ("Gorchymyn Cymunedau Caerffili") sy'n gweithredu'r newidiadau a argymhellir i'r trefniadau etholiadol cymunedol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili a gynhwysir yn adroddiad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") dyddiedig mis Mai 2024. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn diwygio Gorchymyn Sir Abertawe (Cymunedau) 2026 ("Gorchymyn Cymunedau Abertawe") sy'n gweithredu'r newidiadau a argymhellir i'r trefniadau etholiadol cymunedol ar gyfer Sir Abertawe a gynhwysir yn adroddiad y Comisiwn dyddiedig mis Tachwedd 2024.

Mae Gorchymyn Cymunedau Caerffili a Gorchymyn Cymunedau Abertawe yn cynnwys camgymeriadau a gywirir gan y Gorchymyn hwn. Creodd Gorchymyn Cymunedau Caerffili yn anghywir gyngor cymuned newydd ar gyfer cymuned newydd Cefn Fforest a Phengam, ac nid oedd hynny'n fwriad gan y Comisiwn yn ei adroddiad dyddiedig mis Mai 2024. Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn cywiro'r camgymeriad hwnnw drwy hepgor erthyglau 46 a 47 o Orchymyn Cymunedau Caerffili a gwneud diwygiadau canlyniadol eraill.

Nid yw Gorchymyn Cymunedau Abertawe yn diddymu Cyngor Cymuned Mawr ac mae'n cynnwys esiamplau o gamsillafu enwau wardiau etholiadol Llangynydd, Llanmadog a Chasllwchwr Uchaf yn y Saesneg. Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn cywiro'r camgymeriadau hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Mae'r Offeryn Statudol Cymreig hwn wedi ei wneud i gywiro gwallau yn O.S.C. 2026/102 a O.S.C. 2026/95.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 113

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cymunedau) a Sir Abertawe (Cymunedau) (Diwygiadau Amrywiol) 2026

Gwnaed	*16 Gorffennaf 2026*
Yn dod i rym	*31 Gorffennaf 2026*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod camgymeriadau wedi digwydd wrth lunio Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cymunedau) 2026(**1**) a Gorchymyn Sir Abertawe (Cymunedau) 2026(**2**), a wnaed o dan adrannau 37(1), a 40(1) a (2)(a) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013(**3**) ("Deddf 2013").

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cywiro'r camgymeriadau hynny ac yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 43(10) o Ddeddf 2013.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cymunedau) a Sir Abertawe (Cymunedau) (Diwygiadau Amrywiol) 2026.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Gorffennaf 2026.

Diwygio Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cymunedau) 2026

2.—(1) Mae Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cymunedau) 2026 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer erthyglau 46 a 47 (sefydlu cyngor cymuned a threfniadau etholiadol cymunedol ar gyfer cymuned Cefn Fforest a Phengam).

(3) Yn erthygl 54 (cynghorau cymuned newydd), yn lle "erthyglau 15, 26 a 46" rhodder "erthyglau 15 a 26".

(4) Yn erthygl 55 (cynghorau cymuned newydd — olynwyr gweddilliol), hepgorer paragraff (c).

(**1**) O.S.C. 2026/102.
(**2**) O.S.C. 2026/95.
(**3**) 2013 dccc 4. Gwnaeth adran 11 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4) ailenwi enw byr Deddf 2013 yn Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

Diwygio Gorchymyn Sir Abertawe (Cymunedau) 2026

3.—(1) Mae Gorchymyn Sir Abertawe (Cymunedau) 2026 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle erthygl 20 (Mawr — diddymu cymuned) rhodder—

“Mawr — diddymu cymuned a chyngor cymuned

20. Mae cymuned Mawr fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

20A. Mae cyngor cymuned Mawr wedi ei ddiddymu.”

(3) Yn y testun Saesneg—

(a) Yn erthygl 22 (diddymu cymunedau)—

(i) yn lle “Llangenith” rhodder “Llangennith”;

(ii) yn lle “Llandmadoc” rhodder “Llanmadoc”;

(b) Yn erthygl 23 (diddymu cyngor cymuned), yn lle “Llangenith” rhodder “Llangennith”;

(c) Yn erthygl 28 (creu ward gymunedol newydd Llangynydd)—

(i) yn y pennawd, yn lle “Llangenith” rhodder “Llangennith”;

(ii) yn lle “Llangenith” rhodder “Llangennith”;

(d) Yn erthygl 68 (newidiadau i ffiniau wardiau cymunedol), yn lle “Upper Loughour” rhodder “Upper Loughor”;

(e) Yn erthygl 106(a) (cynghorau cymuned newydd — olynwyr gweddilliol), ar gyfer “Llangenith” rhodder “Llangennith”.

(4) Yn y testun Cymraeg, yn erthygl 28, yn lle “Llangenith” rhodder “Llangennith”.

Siân Gwenllian
Y Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
16 Gorffennaf 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

This Welsh Statutory Instrument has been made to correct errors in W.S.I. 2026/102 and W.S.I. 2026/95.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 113

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The County Borough of Caerphilly (Communities) and the County of Swansea (Communities) (Miscellaneous Amendments) Order 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order amends the County Borough of Caerphilly (Communities) Order 2026 ("the Caerphilly Communities Order") which implements the recommended changes to the community electoral arrangements for the County Borough of Caerphilly contained in the report of the Democracy and Boundary Commission Cymru ("the Commission") dated May 2024. This Order also amends the County of Swansea (Communities) Order 2026 ("the Swansea Communities Order") which implements the recommended changes to the community electoral arrangements for the County of Swansea contained in the report of the Commission dated November 2024.

The Caerphilly Communities Order and the Swansea Communities Order contain mistakes which are rectified by this Order. The Caerphilly Communities Order incorrectly created a new community council for the new community of Cefn Fforest and Pengam, which was not the Commission's intention in its report dated May 2024. Article 2 of this Order rectifies that mistake by omitting articles 46 and 47 of the Caerphilly Communities Order and making other consequential amendments.

The Swansea Communities Order does not dissolve Mawr Community Council and contains incorrect English language spellings of the electoral ward names of Llangennith, Llanmadoc and Upper Loughor. Article 3 of this Order rectifies those mistakes.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

This Welsh Statutory Instrument has been made to correct errors in W.S.I. 2026/102 and W.S.I. 2026/95.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 113

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The County Borough of Caerphilly (Communities) and the County of Swansea (Communities) (Miscellaneous Amendments) Order 2026

Made	*16 July 2026*
Coming into force	*31 July 2026*

The Welsh Ministers are satisfied that mistakes have occurred in the preparation of the County Borough of Caerphilly (Communities) Order 2026(**1**) and the County of Swansea (Communities) Order 2026(**2**), which were made under sections 37(1), and 40(1) and (2)(a) of the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013(**3**) ("the 2013 Act").

The Welsh Ministers consider it necessary to rectify those mistakes and make the following Order in exercise of the power conferred on them by section 43(10) of the 2013 Act.

Title and coming into force

1.—(1) The title of this Order is the County Borough of Caerphilly (Communities) and the County of Swansea (Communities) (Miscellaneous Amendments) Order 2026.

(2) This Order comes into force on 31 July 2026.

Amendment to the County Borough of Caerphilly (Communities) Order 2026

2.—(1) The County Borough of Caerphilly (Communities) Order 2026 is amended as follows.

(2) Omit articles 46 and 47 (establishment of community council and community electoral arrangements for the community of Cefn Fforest and Pengam).

(3) In article 54 (new community councils), for "articles 15, 26 and 46" substitute "articles 15 and 26".

(**1**) W.S.I. 2026/102.
(**2**) W.S.I. 2026/95.
(**3**) 2013 anaw 4. Section 11 of the Senedd Cymru (Members and Elections) Act 2024 (asc 4) renamed the short title of the 2013 Act as the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013.

(4) In article 55 (new community councils — residuary successors), omit paragraph (c).

Amendment to the County of Swansea (Communities) Order 2026

3.—(1) The County of Swansea (Communities) Order 2026 is amended as follows.

(2) For article 20 (Mawr — abolition of community) substitute—

"Mawr — abolition of community and community council

20. The community of Mawr as changed by this Order is abolished.

20A. The community council of Mawr is dissolved."

(3) In the English language text—

(a) In article 22 (abolition of communities)—

(i) for "Llangenith" substitute "Llangennith";

(ii) for "Llandmadoc" substitute "Llanmadoc";

(b) In article 23 (dissolving of community council), for "Llangenith" substitute "Llangennith";

(c) In article 28 (creation of the new community ward of Llangenith)—

(i) in the heading, for "Llangenith" substitute "Llangennith";

(ii) for "Llangenith" substitute "Llangennith";

(d) In article 68 (community ward boundary changes), for "Upper Loughour" substitute "Upper Loughor";

(e) In article 106(a) (new community councils — residuary successors), for "Llangenith" substitute "Llangennith".

(4) In the Welsh language text, in article 28, for "Llangenith" substitute "Llangennith".

Siân Gwenllian
Cabinet Minister for Local Government, Housing and Planning, one of the Welsh Ministers
16 July 2026

© Crown Copyright 2026

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer for Wales.

williams lea | tso
An RRD Company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein
www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn ac E-bost
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), part of Williams Lea,
and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone & E-mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-34-839884-7

9 780348 398847